**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**YSTYRIED Y MATERION SYDD I'W CYNNWYS YM MHAPUR POLISI LLYWODRAETH LEOL**

**DIBEN**

1. Diben y papur hwn yw rhoi cynnwys arfaethedig papur polisi llywodraeth leol Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Pwyllgor, a fydd i Gymru yn gyfwerth i Bapur Gwyn Yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau.

**ARGYMHELLION**

2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn a rhoi ei safbwyntiau ar y cynigion

**AMSERIAD**

3. Bwriedir cyhoeddi'r papur polisi hwn ddechrau mis Mawrth a bydd cyfnod ymgynghori'n dilyn.

**CEFNDIR**

4. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 21 Tachwedd 2001, mynegodd y Gweinidog ei bwriad i gyhoeddi papur ar faterion polisi a materion ariannol llywodraeth leol yn ystod tymor y gwanwyn

5. Cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau ei Bapur Gwyn ar lywodraeth leol ar 11 Rhagfyr 2001, sy'n cynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol gan gynnwys deddfu ar system fenthyca ddarbodus

**YSTYRIAETH**

**Themâu Arfaethedig y Papur Polisi**

**Gweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol**

6. Hwn fydd y cyfle cyntaf i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnig gweledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru o fewn un ddogfen bolisi.

7. Bydd yn adlewyrchu'r berthynas aeddfed sy'n datblygu rhwng llywodraeth leol a'r Cynulliad. Bydd yn nodi amcanion y Cynulliad o ran galluogi cymunedau a'r bartneriaeth rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol i greu cymunedau cryf ac egnïol yng Nghymru. Bydd yn pwysleisio'r rôl bwysig sydd gan lywodraeth leol i'w chwarae o ran arwain cymunedau yng Nghymru.

**Llywodraeth Leol yn Arwain Cymunedau**

8. Byddwn yn ailddatgan rôl allweddol llywodraeth leol fel arweinydd cymunedol ac i ddatblygu strategaethau cymunedol. Bydd gan lywodraeth leol rôl sylfaenol o ran dod â'r diddordebau amrywiol yn eu cymunedau ynghyd â'u helpu i symud ymlaen yn yr un cyfeiriad cyffredin.

9. Bydd y strategaeth gymunedol yn darparu fframwaith ar gyfer yr holl gynlluniau eraill a'r ffocws ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Bydd y cysyniad o gynllunio cymunedol, gyda'r pwyslais ar bartneriaeth, yn dod yn 'norm' ar gyfer y modd y bydd llywodraeth leol yn gweithredu polisi a datblygu gwasanaethau ac yn cwrdd â blaenoriaethau lleol.

**Gweithio Gyda'n Gilydd i Wella Gasanaethau Llywodraeth Leol**

10. Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella fydd y ffocws canolog ar gyfer darparu'n llwyddiannus gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel. Bydd y papur yn rhoi pwyslais ar awdurdodau lleol sy'n chwilio am gyfle i weithio gyda'i gilydd ynghyd â chyda chyrff eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau a mynd i'r afael â materion rhanbarthol. Bydd yn dangos enghreifftiau o arfer da yn hyn o beth.

11. Bydd ymrwymiad i gefnogi'r cysyniad o 'deulu llywodraeth leol' ac i helpu'i gilydd trwy rannu arfer da, trwy annog swyddog i helpu swyddog a thrwy ddarparu arbenigedd canolog. Mae cefnogaeth y Cynulliad i ariannu uned ddata llywodraeth leol, uned cydraddoldeb ac uned gaffael yn fenter unigryw i Gymru.

12. Bydd y papur yn pwysleisio pwysigrwydd thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd i gefnogi gwasanaethau gwell. Bydd yn nodi cynigion i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn llywodraeth leol a thargedau cenedlaethol ar gyfer gwella sy'n defnyddio gwybodaeth am gynlluniau a blaenoriaethau lleol ac yn ategu'r

strategaeth TGCh genedlaethol.

**Lleihau'r Baich Biwrocratig ar Awdurdodau Lleol**

13. Bydd y papur yn cynnig fframwaith cydlynol ar gyfer cynhyrchu cynlluniau a datblygu modd cyffredin o gynllunio. Bydd yn cydnabod bod cynllunio yn hanfodol i gyrff gwerth miliynau o bunnau ond y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ganolbwyntio ar ofyn am gynlluniau strategol o lefel uchel a mesur canlyniadau go iawn.

14. Bydd y papur yn cynnig y dylai'r Cynulliad ddatblygu'r cysyniad o gytundebau polisi. Ar hyn o bryd, mae'r cytundebau hyn yn canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o dargedau sy'n seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol. Mae potensial i ymestyn y set nesaf o gytundebau polisi i adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a chanolbwyntio ar yr hyn y gall awdurdodau ei wneud i wella eu gallu i gyflwyno gwasanaethau gwell – er enghraifft trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau ar y cyd ag awdurdodau eraill, mewn hyfforddi a datblygu, mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu neu gyfuniad o'r rhain.

15. Agwedd arall o fiwrocratiaeth a gaiff ei werthuso yn nhermau 'gwerth ychwanegol' yw cyfundrefnau cydsynio, lle bo rhaid i awdurdodau lleol dderbyn cymeradwyaeth y Cynulliad cyn gallu ymgymryd â gweithred benodol. Byddwn yn ymrwymo i adolygu a lleihau'r cyfundrefnau hyn.

**Ariannu Llywodraeth Leol**

16. Bydd hwn yn nodi cynlluniau ar gyfer ariannu llywodraeth leol fel a ganlyn:

- **Cyllid Refeniw –** Ymrwymiad i barhau i beidio â chlustnodi cyllid a pharhau i ddatblygu'r fformiwla refeniw mewn cydweithrediad â llywodraeth leol.

- **Cyllid Cyfalaf –** Ymrwymiad i gyflwyno'r system fenthyg ddarbodus a symleiddio'r gweithdrefnau eithrio ar gyfer cwmnïau sy'n cael eu rheoli gan awdurdodau lleol.

- **Trethu Lleol –** Bydd yn nodi cynlluniau ar gyfer ailbrisio'r dreth gyngor yng Nghymru, datblygu ardrethi i fusnesau lleol ac yn cyflwyno cynllun cymorth ardrethi i fusnesau bach.

- **Ffïoedd a Chostau –** bydd ymrwymiad i adolygu'r ffïoedd a'r costau a bennir gan y Cynulliad a lle bo'n ymarferol i drosglwyddo cyfrifoldeb am eu pennu i awdurdodau lleol.

Cyflwynir pwer cyffredinol i godi tâl am wasanaethau dewisol.

- **Cynghorau Cymuned –** Ymrwymir i weithio â grwpiau perthnasol i ddatblygu canllaw ar gyfer datrys problem 'trethiad dwbl'. Bydd arolwg hefyd o system cymeradwyo benthyciadau cyfalaf i gynghorau cymuned. Bydd cynghorwyr cymuned yn gallu, os ydynt yn dymuno, awdurdodi taliadau gan eu cyngor trwy ddefnyddio dulliau electronig.

- **Cyllid ar gyfer Tai –** Bydd hwn yn nodi cynlluniau ar gyfer symleiddio system cyllid tai yng Nghymru, ac yn enwedig y Cyfrif Refeniw Tai.

## Llywodraeth Leol Ddemocrataidd ac Atebol

17. Bydd hwn yn ymdrin ag atebolrwydd democrataidd ac ariannol. Bydd yn cynnwys cynlluniau i annog mwy o bobl i bleidleisio, gan ddechrau trwy annog a galluogi mwy o bobl – yn enwedig pobl ifanc – i gymryd rhan ym mhenderfyniadau llywodraeth leol. Ategir hyn gan ddatblygiad e-democratiaeth yng Nghymru.

18. Bydd y papur yn cyfeirio at waith y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol ac at fentrau i gynyddu amrywiaeth ymhlith yr aelodau a etholir. Bydd ymrwymiad hefyd i gefnogi datblygiad rôl y cynghorwyr ar bwyllgorau goruchwylio a chraffu, rhan allweddol o'r strwythurau rheoli gwleidyddol fydd yn dod i rym o Ebrill / Mai 2002. Bydd ymrwymiad i adolygu a gwerthuso gweithrediad y strwythurau newydd hyn maes o law.

19. Bydd y papur yn cydnabod bod safon dda ar y cyfan o reoli ariannol yn yr awdurdodau lleol yng Nghymru a bydd yn awgrymu adeiladu ar y sail hon i adlewyrchu cyd-destun cyfnewidiol llywodraeth leol. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion i newid dyddiad cyhoeddi cyfriflenni ariannol awdurdodau lleol i'w gwneud yn fwy perthnasol i hapddalwyr. O ran y Cynulliad, bydd adolygiad o gynllun Bellwin (sy'n rhoi cefnogaeth ariannol i awdurdodau lleol tuag at gostau argyfwng) i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod a ydynt yn gymwys.

### Partneriaeth

20. Bydd y papur yn cyfeirio at rôl y Cyngor Partneriaeth ac at yr agenda sy'n datblygu gyda'i holl aelodaeth (gan gynnwys astudiaeth ymchwil o gynghorau cymuned ac o'r modd y mae awdurdodau tân yn cydweithio â'r Cynulliad). Bydd yn cyfeirio at fonitro a gwerthuso effaith y polisïau a nodir yn y papur ynghyd ag effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth trwy'r Cyngor Partneriaeth.

21. Cyhoeddir y papur dan adran 40 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 oherwydd ei fod yn ymwneud â swyddogaethau llywodraeth leol y Cynulliad. Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog, nid oes materion ynghylch cysondeb a phriodoldeb ac mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad yn fodlon.

**THEMÂU TRAWS-BYNCIOL**

22. Mae gan nifer o'r eitemau a gynhwysir yn y papur hwn oblygiadau traws-bynciol. Felly, mae copïau o'r papur hwn wedi cael eu hanfon at Gadeiryddion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig, y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd er mwyn iddynt gael cyfle i roi sylwadau.

**CAMAU I'W CYMRYD**

18. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a rhoi sylwadau ar gynnwys yr adroddiad hwn.

**Pwynt Cyswllt:** Adam Peat

Cyfarwyddwr Grwp Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant

Est. 5565